**PWYLLGOR RHANBARTH CANOLBARTH CYMRU**

**Cyngor Gwynedd (Meirionydd)**

Papur gan y Cyng. Dyfrig Siencyn a Henry Roberts

Rhaid dechrau drwy ganmol y berthynas waith dda sydd rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a'r cyrff lleol, gan gynnwys Cyngor Gwynedd. Mae perthynas arbennig gyda'r swyddfeydd ardal a chyda staff unigol, a diolchir am bob cymorth a chydweithrediad.

Gwneir yr awgrymiadau a'r argymhellion isod fel modd positif i wella ardrawiad ac ychwanegu gwerth at ymdrechion y gwahanol asiantaethau ar economi'r Gymru Wledig.

1. Yr oedd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ei ddiwylliant ei hun. Yr oedd yn agos at y gwreiddiau ac yn deall prosiectau bychain, rhai sydd yn aml iawn yn bosib mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd hefyd yn lais blaenllaw i ddadleuon gwledig. Mae llawer o hyn yn parhau yn Swyddfa'r Canolbarth, ond mae angen rhannu peth o'r diwylliant hwn gyda'r swyddfeydd ardal eraill. Mae'r pwynt hwn ymhlyg yn nifer o'r pwyntiau sy'n dilyn.

2. Er bod yr Awdurdod Datblygu bellach yn un corff cenedlaethol yng Nghymru, byddai'n fendithiol pe gellid pwysleisio mwy ar gysoni blaenoriaethau, diwylliant a pholisi (os mai dyna yw'r gair cywir) rhwng y swyddfeydd ardal. Mae hyn yn arbennig o wir yn ardal Gwynedd, lle mae cysondeb o fewn y Sir ei hun yn hynod o bwysig. Mae’r gwahaniaeth hefyd yn bwysig o ran Amcan 1, lle mae'r ardal yn cynnwys rhannau o bedwar rhanbarth yr Awdurdod Datblygu.

3. Mae angen edrych o ddifrif ar bolisïau gwledig o’r persbectif Gorllewinol Mae'n anodd gweld fod set o bolisïau gwledig yn bodoli, ac nid wyf bob tro'n sicr os yw'r Awdurdod Datblygu yn ei grynswth yn gwbl gyfforddus yn delio â materion gwledig.

   Pan lwyddir i ddenu busnesau newydd maintiolus i'r ardaloedd Gorllewinol, ac i fod yn deg , ymddengys fod mwy o lwyddiant yn hyn o beth, nac erioed o'r blaen, dylid gwneud mwy i geisio integreiddio'r rhain i’r economïau lleol, ac i wasgaru'r budd, e.e. daeth llwyddiant diweddar i Fangor, a diolchir amdano ac am ymdrechion yr Awdurdod Datblygu. Dyma'r math o beth mae'r Awdurdod Datblygu wedi bod yn enwog amdano ers blynyddoedd. Rhaid i ni gyda'n gilydd symud ymlaen i'r mileniwm nesaf, sef gwasgaru'r budd i ardaloedd fel Llyn a Meirionnydd. Rhaid wrth feddylfryd pur radical os am wneud hyn, ac efallai symud ymlaen i faes newydd o ran yr Awdurdod Datblygu. Dim ond drwy hyn y gellir cael y budd mwyaf drwy gyfrwng Amcan 1.

4. Tra mae'r pictiwr a’r perfformiad ar gyfer Cymru gyfan yn bwysig, rhaid bod yn glir beth yw'r targedau ar gyfer yr ardaloedd Gwledig/Gorllewinol. Rhaid adnabod gwahanol anghenion a chyfleon y Rhanbarthau yng Nghymru, darlunio'r sialens a gosod is-dargedau pendant. Mae perygl i Gymru gyfan fel un uned ffynnu yn ystadegol tra mae cyfran helaeth o’i hardaloedd, mewn gwirionedd yn methu cyrraedd y nod.

5. Dylai'r agwedd hon hefyd adlewyrchu ei hun ym mholisi marchnata'r Awdurdod Datblygu. Dylai'r holl gyrff sy'n marchnata tu allan i ffiniau Cymru wneud hynny o dan **un** logo neu ddelwedd Gymreig gref, yn hytrach na gwanhaol "logos" y cyrff unigol. Ar yr un pryd dylid fod yn barod i gydweithio gyda chyrff eraill ar ymgyrchoedd marchnata lleol eu natur gan fanteisio ar gryfderau a manteision lleol. Byddai unrhyw symudiad gan yr Awdurdod Datblygu i symud i ffwrdd o hyn, yn anfanteisiol iawn i'r ardaloedd pellennig a gwledig.

6. Teimlir fod yna wleidyddiaeth y "canol" a'r "lleol" yn datblygu yng Nghymru. Mae hyn i'w weld i raddau yn y trafodaethau diweddar ar Amcan 1. Mae'n bwysig fod yr Awdurdod Datblygu yn cadw uwchben hyn, yn adeiladu ar y berthynas waith dda sydd gyda'r cyrff lleol, ac yn ail-ddatgan yn glir mai allbynnau sydd bwysicaf.

7. Rhaid i'r Awdurdod Datblygu ei hun ochel rhag gôr ganoli o ran ei bolisïau, ei weledigaeth, ei reolaeth a'i ddiwylliant. Dylai'r Awdurdod hefyd yn ei rôl datblygu'r economi, annog cyrff eraill yng Nghymru i ddatganoli. Mae angen swyddi o safon yn y cymunedau gwledig, a thra mae mewnfuddsoddi yn aml yn anodd, gallai fod yn haws creu yr un math o swyddi drwy adleoli swyddi o Gaerdydd neu'r dinasoedd eraill.

8. Mae'r Awdurdod Datblygu yn gorff blaenllaw ym myd datblygu rhanbarthol yng Nghymru. Mae'n bwysig felly fod dealltwriaeth o'r grymoedd naturiol sy'n effeithio ar batrwm economi Cymru, yn enwedig felly effaith Caerdydd a'r De Ddwyrain, a bod polisïau'n cael eu teilwrio gyda hyn mewn golwg.

9. O ran allbynnau, mae'r cyrff datblygu i gyd yn cael eu gyrru gan allbynnau caled, tymor byr. Rhaid cofio nad yw hyn yn bosib mewn ardaloedd gwledig bob tro, a thra mae prosiectau gwledig mewn economi wantan, yn cystadlu am adnoddau yn erbyn prosiectau trefol, mewn economi cryfach, all y gwledig ddim ennill heb sylw i lunio allbynnau llai amrwd. Rhaid deall fod llawer angen ei wneud mewn ardaloedd gwledig cyn hyd yn oed enyn diddordeb y sector breifat. Mae Caernarfon yn enghraifft o hyn, lle credwyd i sianelu adnoddau i'r dref am tua 10 mlynedd, cyn y buddsoddiad preifat cyntaf o sylwedd. Mae ardaloedd Meirionnydd yn debyg, yn yr un sefyllfa a Chaernarfon fel yr oedd 10 mlynedd yn

ôl.

10. Mae'n boendod fod cyllid yr Awdurdod Datblygu wedi'i leihau, hynny mewn amser tyngedfennol, ar drothwy cyfleon Amcan 1. Erfynir ar y Cynulliad i edrych ar hyn gyda'r bwriad o unioni’r cam.

Dydy'r papur hwn ddim i fod yn feirniadaeth o’r Awdurdod Datblygu. Mewn papur byr, aed ddim i sôn am rinweddau'r Awdurdod Datblygu yn benodol, y pethau na fyddir am eu newid, ac mae llawer o'r rheini.

Pwysleisiwyd ar y pwyntiau sydd yn ein tyb ni angen sylw, er galluogi'r Awdurdod Datblygu i wneud hyd yn oed fwy i economi Cymru.